

Cyfarfod grŵp newid hinsawdd y sector gwirfoddol

7 Mawrth 2022, 10am-11.30am

Nodiadau

Mynychwyr

- Gethin Rhys, Cyngor Rhyngffydd Cymru
- Sarah Germain, Fareshare Cymru
- Amanda Carr, SCVS
- Kevin Rahman-Daultrey, Maint Cymru
- Gemma Lelliott, Cymdeithas Cludiant Cymunedol
- Sue Husband, Busnes yn y Gymuned
- Stephen Tiley, GAVO
- Melda Grantham, Cyngor Rhyngffydd Cymru
- David Williams, Llais y Goedwig
- Gary Mitchell, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
- Grant Peisley, Deg Cymru
- Peter Williams, DTA Cymru
- Adam Kennerly, DTA Cymru
- Katy Stevenson, Groundwork Cymru
- David Cook, CGGC
- Anna Nicholl, CGGC
- Kenneth Addison, YDCW
- Susie Ventris Field, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA)
- Cat Miller, CGGC
- Rebecca Brough, Y Cerddwyr
- Jess McQuade, WWF Cymru

Croeso a chyflwyniadau

Nododd y grŵp ein bod wedi cael cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar y cynllun Sero Net.

Adolygu'r gweithgareddau diweddar:

Myfyrio ar y Cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Gan ystyried y gyfres barhaus o gyfarfodydd â swyddogion ar gynlluniau Sero Net, awgrymwyd y byddai'n syniad da edrych ar sut rydym yn codi cwestiynau ynghylch tai a rhannau eraill o'r portffolio hwn.

Myfyrio ar y cyfarfod â swyddogion ynghylch cynllun ymgysylltu Sero Net a'r camau a gododd

Trafododd y grŵp nifer o bwyntiau, gan gynnwys:

- anawsterau i'r sector wrth geisio cymryd rhan yn holl wahanol bwyntiau gweithgareddau newid hinsawdd ar draws Llywodraeth Cymru

- Sut i gael swyddogion i ddod i ddiwydiadau'r sector sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd
- Sut dylai'r sector weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ôl y prosesau ymgysylltu, gan gynnwys cyd-gyflenwi'r cynllun

Diweddariadau ar flaenoriaethau eraill

Grŵp yn awyddus i wybod sut mae'r portffolio wedi'i rannu rhwng y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog a phwy sy'n arwain ar beth. Dywedodd Gethin fod cwestiynau'r Senedd yn nodi mai Julie James sy'n arwain y maes tai, a Lee Waters sy'n arwain y meysydd newid hinsawdd a thrafnidiaeth.

Nodwyd fod meysydd fel hawliau cymunedol i dai a thir hefyd yn cael eu cynnwys mewn portffolios eraill, e.e. Materion Gwledig. Awgrymwyd y dylai'r grŵp hwn gysylltu â'r un yna. Roedd Kevin wedi cael gwybod nad oedd yr ymrwymiad datgoedwigo yn syrthio o dan y portffolio hwn. Byddai'n ddefnyddiol gwybod ym mhle y dylai hwn ffitio yn nhyb Llywodraeth Cymru. Nid oedd Susie yn gwybod ble oedd ymrwymadau rhyngwladol yn ffitio o dan y Cabinet hwn. Awgrymodd y dylai'r grŵp newid hinsawdd gwrdd â Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion eraill o bryd i'w gilydd. Dywedodd Anna y byddai hyn yn helpu gyda phroblemau o ran datgoedwigo a chaffael.

Trafodwyd mapio defnydd tir. Penderfynwyd y byddai'n well gadael hyn i'r Sefydliad Materion Cymreig, sydd eisoes wedi dechrau ar waith yn y maes hwn.

Cytunodd y grŵp y byddai'n syniad da gwirio ymrwymadau COP26 Llywodraeth Cymru.

Awgrymodd Adam fod angen mwy o adnoddau ar y sector er mwyn gwneud y gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu y maen nhw eu hangen. Rydym yn cynnig gwneud llais cymunedau yn fwy clir a dealladwy, ond yn gofyn am adnoddau i wneud hynny.

Trafodwyd cysylltiadau rhwng busnesau cymdeithasol a'r amgylchedd, a sut mae'r rhain yn cysylltu â'r Portffolio Economi.

Nododd y grŵp y gwaith ymgysylltu ar strategaeth hinsawdd 2010 y gallai Llywodraeth Cymru adeiladu arno.

Unrhyw fater arall

Nododd Kevin ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag ôl troed datgoedwigo tramor Cymru, gan ganolbwyntio ar arferion caffael a ffermio

Agenda ar gyfer y cyfarfod Sero Net, 22 Mawrth

- Ymgysylltiad rhwng y sector gwirfoddol a'r llywodraeth (Susie Ventris Field, Grant Priestly, Jess McQuade os oes ganddi bethau i'w datblygu o'r strategaeth newid hinsawdd, CGGC ar egwyddorion ymgysylltu cenedlaethol)

- Cydgyflenwi'r Cynllun Sero Net (Dywedodd Dave Williams, gan adeiladu ar ei bapur ar fod yn eglur bod gymaint o gategorïau i hyn, mae angen i'r cynllun gynnwys sut mae'r gwahanol rannau hynny o Lywodraeth Cymru yn cysylltu â gwahanol rannau o'r sector, e.e. ei waith gyda Llais y Goedwig a rhoi coed ymaith)
- Paratoi ar gyfer lansio/cyflwyno'r strategaeth ymgysylltu
- Ymgysylltu â swyddogion mewn digwyddiadau'r sector gwirfoddol

Agenda ar gyfer y Cyfarfod Gweinidogol i ddod (dyddiad i'w gadarnhau)

- Cyflawni ymrwymïadau'r COP: diweddariad
- Ymgysylltu a chyd-gyflenwi ar y Cynllun Sero Net
- Perchenogaeth Gymunedol yng Nghymru (yn dibynnu ar feddyliau'r grŵp – Ben Lloyd yw'r arweinydd i CGGC ar hyn)